Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Ddydd Beach House**

**37 Marine Drive**
**Y Rhyl**
**LL18 3AY**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/03/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Meithrinfa Ddydd Beach House

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br><br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Louise McCabe-Allen |
| Lleoedd cofrestredig | 42 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nodi â Llaw]<br>Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn felly ni chafodd pob thema ei hystyried yn fanwl fel rhan o'r arolygiad hwn.

Gwrandewir ar y plant. Maent yn fodlon eu byd ac yn mwynhau eu hunain yn y lleoliad hwn, yn cael eu parchu ac yn brysur yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Maent yn teimlo'n ddiogel, yn rhyngweithio'n dda ac yn dechrau dysgu sut i wneud pethau drostynt eu hunain a chânt gyfleoedd da i ddatblygu sgiliau gwahanol.

Mae'r staff yn deall eu rôl o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.  Maent yn gofalu am y plant yn dda. Maent yn rheoli ymddygiad y plant yn garedig, ac mewn ffordd y mae'r plant yn ei deall. Mae'r staff yn brofiadol ac yn darparu gweithgareddau diddorol er mwyn helpu'r plant i ddatblygu'n dda. Maent yn diwallu anghenion unigol yn effeithiol.

Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gan y plant amgylchedd addas a bod amrywiaeth o adnoddau a chyfarpar ar gael iddynt, sydd o ansawdd da, yn naturiol ac wedi’u hailgylchu ac sy'n addas ar gyfer oedrannau a chamau datblygiad y plant. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd iddynt weithio gyda deunyddiau gwahanol ac yn sicrhau y gall y plant wneud penderfyniadau am le y maent am chwarae a gyda pha deganau.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau y mae pob aelod o'r staff yn eu gweithredu'n dda. Mae'r rhain yn cadw'r plant yn ddiogel, ac mae'r staff yn deall gweithdrefnau diogelwch y lleoliad. Maent yn cynnig cefnogaeth dda ac yn ymrwymedig i wella arferion er mwyn y plant a’u teuluoedd.  Mae ganddynt dîm cyfeillgar a chefnogol o staff sy'n cydweithio'n dda â'i gilydd. Mae cydberthynas effeithiol rhwng y staff a'r rhieni, sydd o fudd i'r plant.

## Llesiant

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r plant yn hyderus ac yn hapus ac yn dewis yr eitemau y maent am chwarae â nhw, neu ble i chwarae. Maent yn penderfynu ble yr hoffent eistedd er mwyn ymuno â'r gweithgaredd gwneud toes chwarae. Mae'r staff yn parchu ac yn annog hyn, gan ddangos bod y plant yn gwneud dewisiadau a'u bod yn gwrando arnynt.

Mae'r plant yn setlo'n dda ac yn gyflym pan fyddant yn cyrraedd. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus wrth eistedd a chwarae â'u ffrindiau a'r staff. Maent yn llawn cyffro wrth fynd allan i chwarae yn yr awyr agored, yn yr ardd, gan wisgo'n gynnes. Mae'r plant hŷn yn dod atom yn hyderus i ddangos yr hyn y maent yn ei wneud a sut y gallant gydbwyso â'u traed mewn cylch. Maent yn dweud wrthym am eu hystafell newydd ac yn tynnu sylw at adnoddau newydd y maent yn eu hoffi. Mae'r plant yn cael llawer o ganmoliaeth am eu cyflawniadau ac mae cydberthnasau cadarnhaol â'r staff. Mae'r plant iau yn mwynhau cael maldod a sicrwydd yn enwedig pan fydd rhywbeth gwahanol yn digwydd. Ymhen dim, maent yn teimlo'n hyderus ac yn rhannu peli meddal, gan chwerthin wrth i ni eu rholio yn ôl ar draws y llawr.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda am eu hoedran – er enghraifft, maent yn dangos caredigrwydd tuag at ei gilydd, gan ddangos pryder pan fydd ffrind yn drist. Maent yn cymryd eu tro i wneud toes chwarae ac mae'r rhan fwyaf yn fodlon rhannu. Mae'r plant yn gwrando ar y staff a phan ofynnir iddynt, maent yn helpu i roi'r teganau i gadw yn barod ar gyfer amser cinio.

Mae'r plant yn weithgar ac yn dysgu drwy chwarae. Er enghraifft, mae pawb yn gwenu ac yn chwerthin wrth chwarae â sbageti oer a phrofi gwahanol synhwyrau. Maent yn mwynhau chwarae yn yr ardd a chael amser i wrando ar stori gan ymuno â'r rhannau y maent yn gyfarwydd â nhw.

Mae'r plant yn datblygu'n dda ac yn teimlo'n gyfforddus â'r drefn o ddydd i ddydd. Mae'r plant hŷn yn dod yn fwyfwy annibynnol wrth iddynt ddefnyddio'r toiledau a golchi eu dwylo heb fawr help o gwbl. Maent yn gwisgo eu cotiau gyda rhywfaint o gymorth gan y staff. Mae eu sgiliau iaith yn datblygu'n dda drwy ganeuon a straeon a'r sgyrsiau niferus a gânt gyda'i gilydd a'r staff.

## Gofal a Datblygiad

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach; maent yn deall beth i'w wneud os bydd ganddynt bryderon am blentyn ac at bwy i fynd. Mae dewisiadau byrbrydau a phrydau yn adlewyrchu deiet iach, a chaiff dŵr neu laeth eu cynnig yn ogystal â digon o ffrwythau. Mae gan ddigon o'r staff gymhwyster cymorth cyntaf pediatrig a all helpu i roi cymorth cyntaf sylfaenol. Mae'r staff yn cadw cofrestrau presenoldeb dyddiol cywir.

Mae'r staff yn wirioneddol garedig tuag at y plant ac yn siarad â nhw ar eu lefel a chan ddangos cryn dipyn o barch. Maent yn annog moesau da ac yn annog y plant i ganolbwyntio, gan eu hatgoffa mewn ffordd garedig a thyner i rannu neu i fod yn ofalus wrth eistedd wrth ymyl eu ffrindiau wrth fwrdd. Mae'r staff yn cefnogi'r plant yn effeithiol i ddatblygu eu sgiliau lleferydd ac iaith ac yn annog chwilfrydedd drwy gyflwyno adnoddau sy'n annog trafodaeth a dysgu pellach. Mae'r staff yn ymatebol, gan sicrhau eu bod wrth law i helpu'r plant i ddod o hyd i rywbeth neu i roi tawelwch meddwl iddynt.

Mae gan y staff wybodaeth dda am chwarae a dysgu. Er eu bod yn cynllunio gweithgareddau dyddiol ac yn datblygu'r trefniadau cynllunio drwy'r cwricwlwm newydd i Gymru ar gyfer y plant hŷn, mae pwyslais newydd ar 'gynllunio yn y foment'. Mae'r staff yn cynllunio ar gyfer y plant iau ac maent wrthi ar hyn o bryd yn ystyried sut y gellir cofnodi hyn yn hawdd er mwyn adlewyrchu'r hyn y bydd y plant yn ei ddysgu a'u canlyniadau. Cedwir cofnodion o ddatblygiad y plant, a chaiff ambell i ddarn o waith y plant ei arddangos. Mae'r staff a'r plant yn hapus yng nghwmni ei gilydd ac yn gwenu'n aml. Maent wrth law i helpu a chefnogi'r plant. Mae'r staff yn ymwybodol iawn o gryfderau a hoff bethau'r plant, ac maent yn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y plant yn effeithiol.
Mae'r staff yn deall sut i gefnogi plant ag anghenion unigol a ffyrdd o weithio gyda'u teuluoedd. Siaradodd y staff yn hyderus am y ffordd y maent yn cefnogi'r plant ac am asiantaethau allanol sy'n cynnig cymorth pellach, er enghraifft, yr Ymwelydd Iechyd neu'r therapydd Lleferydd ac Iaith.

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac na all neb ddod i mewn heb awdurdod. Er enghraifft, mae drws mewnol y neuadd wedi'i gloi, ac mae'r giât a'r drws allanol ar gau. Mae arwydd yn atgoffa'r rhieni i gau'r ddau. Ar ôl i ni ddod i mewn i'r adeilad, gofynnwyd i ni ddangos prawf adnabod, a llofnodi'r llyfr ymwelwyr. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn ddiogel drwy gwblhau asesiadau risg.

Mae’r safle yn addas i'r plant chwarae a dysgu ac mae'r staff yn gwneud defnydd priodol o’r ystafelloedd, gan gynnig gwahanol brofiadau dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wedi gwneud gwelliannau i'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored, yn benodol drwy ailaddurno a phrynu dodrefn ac adnoddau naturiol newydd. Maent yn datblygu ardaloedd chwarae a dysgu dan do sy'n cynnwys digon o adnoddau gyda chymorth Dechrau'n Deg.

Mae'r amgylchedd yn cynnwys cyfleusterau da ac mae amrywiaeth o deganau ac adnoddau sy'n addas ar gyfer y plant ac sy'n hawdd eu cyrraedd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu eitemau addas, gan gynnwys eitemau naturiol ac eitemau wedi'u gwneud gan ddyn, gan sicrhau y gall y plant ddilyn eu diddordebau a chefnogi eu dysgu a'u datblygiad. Er enghraifft, mae ardaloedd tawel a chyfforddus i chwarae ac ymlacio ynddynt a rhannau sydd ag adnoddau da lle gallant ddefnyddio eu dychymyg, gan gynnwys eu cornel gartref.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ei reoli'n dda ac yn hybu canlyniadau da i'r plant. Mae datganiad o ddiben y gwasanaeth yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar rieni iddynt benderfynu a fydd y gwasanaeth yn diwallu anghenion eu plentyn a'u hanghenion nhw. Dilynir y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer y gwasanaeth yn briodol, gan wneud yn siŵr bod gan y lleoliad ddarpariaeth ddiogel a chynhwysol i bawb.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir ganddynt. Cyflwynwyd darpariaeth Dechrau'n Deg yn ddiweddar ac mae'r lleoliad, y staff, y plant a'u teuluoedd eisoes yn cael budd o ymweliadau cartref, ac arweiniad gan gydgysylltydd. Mae'r ardal dan do wedi cael ei hailaddurno gan ddefnyddio lliwiau niwtral gan ddarparu amgylchedd mwy tawel a hamddenol i'r plant chwarae. Clywsom farn y bobl sy'n rhedeg y lleoliad am y gwasanaeth a'u dyheadau ar ei gyfer. Maent yn nodi'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu yn effeithiol ac yn gwneud newidiadau cadarnhaol sydd o fudd i'r plant ac sy'n gwella eu canlyniadau ac yn datblygu eu sgiliau.

Mae'r staff yn cydweithio'n dda, ac mae pob un ohonynt yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn barod i arwain y plant yn briodol. Mae'r staff yn hapus, yn hamddenol ac yn gyfeillgar ac yn gwybod â phwy i gysylltu os bydd angen cymorth arnynt. Mae'r staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac mae pob un ohonynt yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn arwain y plant yn dda.

Mae'r cydberthnasau â'r rhieni yn gadarnhaol ac yn cyfrannu at lesiant y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud yn siŵr bod y rhieni yn cael gwybod am gynnydd eu plentyn. Gallant gael gwybod unrhyw wybodaeth newydd yn y lleoliad neu beth mae eu plentyn wedi bod yn ei wneud. Mae'r rhieni yn rhannu gwybodaeth ysgrifenedig a llafar berthnasol am eu plentyn gyda'r staff cyn i'w plentyn ddechrau fel bod y staff yn gallu darparu'r gofal unigol sydd ei angen ar bob plentyn. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei diweddaru yn ôl yr angen, ond hefyd drwy drafodaethau hamddenol ar ddechrau a diwedd y dydd fel bod y staff yn ymwybodol o anghenion newidiol a bywyd teuluol y plant a'r ffordd orau i'w cefnogi.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1 Parhau i ddatblygu'r trefniadau cynllunio i adlewyrchu syniadau a chamau datblygiad y plant.

A2 Datblygu'r ddarpariaeth ymhellach gyda chymorth Dechrau'n Deg.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/04/2023